# CYNGOR CYMUNED LLANDYSILIOGOGO

## Adroddiad Blynyddol

## 2023 / 24


1. Rhagair gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned
2. Swyddogaethau a Threfniadau'r Cyngor
3. Aelodaeth o'r Cyngor
4. Gwaith y Cyngor 2023-2024
5. Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol
6. Mynychu Cyfarfodydd y Cyngor / Cysylltwch â Ni


*Ble y nodir 'y Cyngor' yn y ddogfen hon, cyfeirir at Gyngor Cymuned Llandysiliogogo*

## Rhagair gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned

Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Llandysiliogogo. Mae'n rhoi trosolwg o waith y Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Cynghorydd Heledd Dafis
(Cadeirydd Cyngor Cymuned Llandysiliogogo 2023 / 2024)

# Swyddogaethau a Threfniadau'r Cyngor

Y Cyngor Cymuned yw'r haen isaf o lywodraeth leol ac sydd agosaf at y cyhoedd o ran diwallu anghenion lleol. Mae gan y Cyngor nifer o hawliau a dyletswyddau statudol.

Mae'r Cyngor Cymuned yn gwneud sylwadau ar geisiadau cynllunio cyn i Gyngor Sir Ceredigion benderfynu arnynt. Maent yn darparu cyllid ar gyfer digwyddiadau, clybiau a gwasnaethau yn y Gymuned.

Mabwysiadodd y Cyngor Cymuned gyfrifoldeb dros Doiledau Cwmtydu ar 3ydd Hydref 2017 am gyfnod prydles o bymtheg mlynedd.

Mae gan y Cyngor aelod yn eu cynrychioli ar Gorff Llywodraethol yr Ysgol Gynradd leol.

## Strwythur y Cyngor

Darperir rhestr o'ch cynghorwyr lleol isod.

Nid yw'r cynghorwyr yn cynrychioli unrhyw blaid wleidyddol. Am y rhan helaethaf o'r flwyddyn mae deg o gynghorwyr wedi bod yn weithredol ar Gyngor Cymuned Llandysiliogogo, ar hyn o bryd mae gan y Cyngor wyth Cynghorydd gweithredol. Cânt eu hethol bob pedair blynedd, neu eu cyfethol rhwng etholiadau.

Cyflogir Clerc rhan-amser i ymdrin â threfniadau cyfarfodydd, â threfniadau gohebiaeth ac â threfniadaeth ariannol.

Mae lle i unarddeg o gynghorwyr ar y Cyngor. Mae 902 o etholwyr yn byw yn ardal y Cyngor (2023).

## Sut mae'r Cyngor yn gweithio?

Bydd unrhyw waith a wneir gan y Cyngor yn cael ei weithredu yn dilyn penderfyniadau a wneir mewn cyfarfodydd agored. Telir am unrhyw waith gydag arian cyhoeddus y mae'r Cyngor yn ei dderbyn trwy godi archebiad (praesept), sef yr arian a godir gan y Cyngor yn fisol oddi wrth drigolion y gymuned, a gesglir fel rhan o'r Dreth Cyngor a bennir gan Gyngor Sir Ceredigion.

## Beth yw archebiant (praesept) y Cyngor?

Cyfanswm archebiant 2023-2024 oedd £10,267.92. Mae'r archebiant yn cael ei godi i ariannu cyfrifoldebau'r Cyngor Cymuned sydd yn cynnwys gwariant ar dorri gwair, cynnal a chadw tai bach Cwmtydu, cynnal a chadw diffibriliwr ac i gyfrannu i sefydliadau lleol.

**A all y cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd?**

Ar bob cyfrif. Mae croeso i'r cyhoedd fynychu ein cyfarfodydd fel gwrandawyr yn unig – a byddem yn annog hynny. Nid oes gan aelodau'r cyhoedd hawl i gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor na rhoi eu barn yn ystod y cyfarfod – fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau eithriadol lle caniateir i'r Cadeirydd alw am gyfraniad gan y cyhoedd ac iddynt wneud datganiad. Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn fisol, heblaw am ym mis Awst, ac maent fel arfer yn cael eu cynnal ar drydydd dydd Mawrth pob mis yn Neuadd Talgarreg neu yn Neuadd Caerwedros. Cyhoeddir trefniadau'r cyfarfod ar wefan y Cyngor Cymuned.

**Cyfarfod Blynyddol**

Mae'r cyfarfod blynyddol yn rhwymedigaeth cyfreithiol fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972. Rhaid cynnal y cyfarfodydd blynyddol ym mis Mai. Y Cyngor sy'n penderfynu ar y dyddiad. Yr eitem gyntaf ar yr agenda yw ethol Cadeirydd y Cyngor Cymuned am y deuddeg mis nesaf.

**Etholiad**

I gael ei ethol yn Gynghorydd rhaid i aelod fod yn gymwysedig o dan y gyfraith, rhaid iddynt fod yn Ddinesydd Prydeinig a rhaid iddo/iddi fod yn oleiaf un ar hugain oed.

Rhaid i'r ymgeisydd hefyd fod yn-

• etholwr llywodraeth leol

• wedi meddiannu, yn ystod y deuddeg mis cyfan cyn y diwrnod hwnnw, fel perchennog neu denant unrhyw dir neu fangre arall yn yr un ardal

• mae'r prif, neu'r unig le gwaith, yn ystod deuddeg mis cyn yr etholiad, wedi bod yn yr ardal hwnnw.

• yn byw yn ystod y deuddeg mis cyfan yn yr ardal honno, neu o fewn tair milltir i'r ardal honno.

**Gwefan y Cyngor Cymuned - [https://www.ccllandysiliogogo.cymru/](https://www.ccllandysiliogogo.cymru/)**

Mae gan y Cyngor Cymuned wefan lle y cyhoeddir yr holl agendâu a chofnodion, ynghyd â gwybodaeth ariannol, manylion canlyniadau archwilio mewnol ac allanol a pholisïau'r Cyngor.

**3**

## Aelodaeth o'r Cyngor 2023 / 2024

Dyma aelodau o Gyngor Cymuned Llandysiliogogo yn ystod y flwyddyn o Fai 2023 i Ebrill 2024

| **Aelod o'r Cyngor** | **Tymor y Swydd (etholwyd yn fwyaf diweddar)** | **Tymor fel Cadeirydd & Is-gadeirydd** |
|---|---|---|
| 1. Cynghorydd Heledd Dafis | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | Cadeirydd Mai 2023 - Mai 2024 |
| 2. Cynghorydd Celia Richardson | Cyfethol - 26/07/2022 | Is-gadeirydd Mai 2023 - Mai 2024 |
| 3. Cynghorydd Alun Evans | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 (ymddiswyddo 12/03/24) | |
| 4. Cyngohorydd Annie Taylor | Cyfethol - 15/11/22 (ymddiswyddo 16/01/24) | |
| 5. Cynghorydd Clinton Jones | Cyfethol – 26/07/2022 | |
| 6. Cynghorydd Gareth Lloyd | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| 7. Cynghorydd Aled Dafis | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| 8. Cynghorydd Mary Davies | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| 9. Cynghorydd Morys Ioan | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| 10. Cynghorydd Vaughan Jones | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |

4

# Gwaith y Cygnor yn 2023/2024

---

**Bore Cymunedol**

Trefnwyd a chynhaliwyd Bore Cymunedol gan y Cyngor, ar y cyd â Neuadd Caerwedros ac â Paned a Chlonc. Bu'n fore llwyddiannus iawn.

**Ymgynghroiadau ac Arolygiadau**

Ymatebwyd i sawl ymgynghoriad ac arolygiad pwysig gan gynnwys Arolwg Strategaeth Tai Lleol Ceredigion; Arolwg Ffiniau Cymunedol; Ymgynghoriad Premiymau Treth Cyngor ac Ail Garterfu ac Eiddo Gwag Hirdymorl; Arolwg Costau Byw; ac Arolwg Bancio Cymunedol.

**Gwybodaeth Ardal Talgarreg**

Argraffwyd a dosbarthwyd Llyfryn Talgarreg i bob cartref a busnes yn y pentref. Hefyd mi addaswyd y wybodaeth ac ychwanegwyd ato ymhellach gan aelod o'r gymuned a'i roi ar Wicipedia ac ar Wikipedia.

**Logo**

Mabwysiadwyd logo i'r Cyngor Cymuned

**Gwefan**

Daethpwyd i ben â'r gwaith o greu gwefan newydd i'r Cyngor ac mae hwnnw bellach ar waith ac yn gyhoeddus.

**Cardi Bach a Bwcabws**

Ceisiwyd ddwyn pwysau ar wleidyddion a Gweinidogion i sicrhau'r gwasanaethau hyn, nad sydd yn rhedeg ar hyn o bryd.

**Ceisiadau Cynllunio**

Caiff Ceisiadau Cynllunio eu hystyried ym mhob cyfarfod ac anfonir sylwadau at y Gwasanaeth Cynllunio yn unol â hynny.

**Rhaglen Hyfforddiant**

Mae cynllun hyfforddiant ar waith i sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn gwbl ymwybodol o brosesau a chyfrifoldebau'r aelodau a'r Cyngor. Mae'r Cyngor Cymuned wedi archebu a thalu am raglen hyfforddiant ar gynllunio, a fydd yn cael ei ddarparu gan Gymorth Cynllunio Cymru

**Polisiau'r Cyngor Cymuned**

Mabwysiadwyd y polisiau canlynol:

- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol
- Polisi Hyfforddaint
- Polisi Iaith
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 56 57
- Diogelu Data i'r Cyngor a Cynghorwyr
- Polisi Cwynion
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Bioamrywiaeth
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Polisi Cadw a Gwaredu
- Cynllun Cyhoeddi
- Datganiad Hygyrchedd

**Tai Bach Cwmtydu**

Gwnaethpwyd gwaith cynnal a chadw i'r toiledau yng Nghwmtydu i sicrhau eu bod yn ddiogel, yn benodol mi drwsiwyd y silffoedd ffenestri a'r llwybr i'r tai bach. Sicrhawyd rhywun i lanhau ac agor a chau'r tai bach am y tymor i ddod.

**Meinciau ac Hysbysfyrddau**

Gwaredwyd hen fainc ac hysbysfwrdd pydredig yn Llwyndafydd gan osod mainc o Gaerwedros yn Llwyndafydd, yn ei lle. Noddwyd mainc newydd i Gaerwedros gan aelod o'r gymuned, er cof am ei gwr.

**Rhoddion Ariannol (Adran 137)**

- Eistedfod Bwlch y Fadfa
- Merched y Wawr y Bryniau
- Clwb Hen Peiriannau Talgarreg
- Adran Bentre Talgarreg
- Cymdeithas Henoed Talgarreg
- Rasys Talgarreg
- Ysgol Bro Sion Cwilt
- Ffrindiau Ysgol Bro Siôn Cwilt

**Rhoddion Ariannol (Adran 133)**

- Neuadd Caerwedros
- Neuadd Talgarreg

**5**

## Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Y meysydd blaenoriaeth y dylsai Cyngor Cymuned Llandysiliogogo eu hystyried yn 2024/25:

- Ymateb i ymgynghroiadau gan gynnwys yr ymgynghoriad 'Arolwg Cymunedol Ceredigion' sydd ar y gweill (Mawrth – Mai 2024), wedi'i arwain gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol
- Gorffen y broses o allu Bancio ar Lein
- Creu Llyfryn ardal ar gyfer ardal Caerwedros
- Parhau i redeg Toiledau Cwmtydu gan feddwl am ffyrdd pellach o godi arian tuag at eu rhedeg.
- Parhau i wthio i ail sefydlu gwasanaethau'r Cardi Bach a Bwcabws
- Parhau i bwyso am waith i'w wneud ar heol y B4338
- Y cynghorwyr i fynychu hyfforddiant ar gynllunio, wedi'i ddarparu gan Cymorth Cynllunio Cymru

6

## Mynychu Cyngor Cymuned Llandysiliogogo/ Cysylltwch â Ni

Mae Cyngor Cymuned Llandysiliogogo yn awyddus i weld aelodau'r cyhoedd yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor.

Ac eithrio eitemau cyfrinachol, cedwir pob busnes yn gyhoeddus.

Cyhoeddir yr holl bapurau agenda cyhoeddus ar-lein 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

Mae modd mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu'n rhithiol.

Os hoffech fynychu cyfarfod, cysylltwch â'r Clerc os gwelwch yn dda.

**Cysylltwch â ni**

Mrs Sioned Davies, (Clerc)

Fronhaul,
13 Bro Gido,
Gilfachreda,
Ceredigion.
SA45 9SR.

Gwefan: - https://www.ccllandysiliogogo.cymru/

Gwybodaeth Cynghorwyr - https://www.ccllandysiliogogo.cymru/cynghorwyr